1907-2007 Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Datganiad Newyddion

### Ysgolion yn gwneud defnydd da o'r arweiniad ar wahardd

12 Mehefin 2007

Dywed adroddiad a gyhoeddir gan Estyn heddiw fod llawer o ysgolion yng Nghymru yn gwneud defnydd da o arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i wella ymddygiad disgyblion a lleihau nifer y gwaharddiadau. Mae Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) ac ysgolion yn dilyn yr arweiniad yn agos ac mae wedi eu helpu i gefnogi disgyblion a fyddai cyn hynny o bosibl yn cael eu gwahardd.

Dim ond pan fyddant wedi rhoi cynnig ar bob dewis arall y bydd llawer o ysgolion yn gwahardd disgyblion, ond mae ambell un yn parhau i fod yn rhy barod i wahardd disgyblion. Mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio dulliau eraill o annog ysgolion i beidio â gwneud hyn, gan gynnwys cyflwyno rheoliadau i alluogi awdurdodau addysg lleol i osod cosbau, gan gynnwys cosbau ariannol, ar y fath ysgolion.

Dywed Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae lleihau nifer y gwaharddiadau yn fater cenedlaethol. Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn isel ym mwyafrif yr AALlau ledled Cymru. Ond rhwng 1999-2000 a 2004-2005 cynyddodd y gwaharddiadau cyfnod penodol[1] bron 150%. Yn cyd-

[1] Pan ddywedir wrth ddysgwr i beidio â dod i'r ysgol am gyfnod penodol; nad yw'n hwy na 45 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

fynd â thangyflawni yn aml bydd problemau gydag ymddygiad a phresenoldeb, a all arwain at wahardd.

“Mae pob disgybl sy’n cael ei wahardd yn debygol o fod wedi datblygu agwedd negyddol iawn tuag at addysg a fydd yn effeithio arnyn nhw a’u teuluoedd am weddill eu bywyd. Mae gan rieni a chymunedau gyfrifoldeb mawr yn y fan hon i ddylanwadu ar ddisgyblion a’u hannog i ddeall manteision addysg dda.”

Mewn un AALl, mae grwpiau ‘meithrin’ hynod o effeithiol yn cefnogi ac yn gweithio gyda disgyblion a’u teuluoedd gan helpu i ddatblygu agweddau gwell tuag at ddysgu. Mae disgyblion a rhieni fel ei gilydd yn defnyddio’r sesiynau hyn i ddatblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae Estyn yn argymell bod AALlau yn cynyddu’r math hwn o gefnogaeth i’r disgyblion hynny sydd ag anawsterau dysgu ac ymddygiad.

Mae Estyn yn adrodd bod ysgolion sy’n lleihau nifer y gwaharddiadau yn llwyddiannus yn:

- meddu ar bolisi clir ar ymddygiad disgyblion y mae’r holl staff yn ei gefnogi a’i weithredu;
- hyrwyddo dulliau effeithiol o reoli ymddygiad;
- cynnig llwybrau dysgu amgen i fodloni anghenion unigolion yn well; ac
- yn defnyddio data i ddilyn cynnydd disgyblion, i nodi problemau posibl ac i fonitro tueddiadau.

Mae’r ysgolion sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus wrth leihau nifer y gwaharddiadau wedi gwneud hynny drwy newid agweddau’r staff tuag at eu ffordd o reoli ymddygiad disgyblion. Mae hyfforddiant i staff wedi cynorthwyo hyn yn aml. Enillodd un ysgol gefnogaeth staff tuag at egwyddorion sy’n pwysleisio bod lles y plentyn o bwysigrwydd mawr. Mae’r egwyddorion hyn yn tanategu arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waharddiadau.

Y llynedd, cyhoeddodd Estyn adroddiad arfer dda ar reoli ymddygiad heriol. Dylai ysgolion, AALlau a Llywodraeth Cynulliad Cymru roi ei argymhellion ar waith i helpu i leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd.

Mae Estyn yn argymell bod AALlau ac ysgolion yn cytuno ar frys ar brotocol ar drosglwyddo disgyblion sydd mewn gwir berygl o gael eu gwahardd o'u hysgol i ysgol arall. Er bod rhai AALlau wedi dechrau gwneud hyn, nid yw'r un ohonynt wedi llunio protocol gorffenedig.

Mae rhai ysgolion wedi edrych ar ddulliau amgen yn lle gwahardd. Mae ychydig o'r ysgolion hyn wedi gwneud defnydd da o 'neilltuo mewnol' lle caiff disgyblion eu cadw yn yr ysgol, ond i ffwrdd o ddisgyblion eraill. Mae ysgolion eraill wedi sefydlu ystafelloedd 'amser tawel' lle gall disgyblion dawelu y tu allan i'r ystafell ddosbarth cyn bod eu hymddygiad yn aflonyddu'n ormodol.

Yn yr achosion lle caiff disgybl ei wahardd, mae'n bosibl y bydd ef/hi neu'r rhieni yn apelio yn erbyn hyn. Ychydig iawn o enghreifftiau lle y digwyddodd hyn y daeth yr arolygwyr ar eu traws. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn sicrhau eu bod yn anfon gwaith gartref i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd. Fodd bynnag mae llawer o ddisgyblion yn methu â chwblhau'r gwaith, ac o ganlyniad, maen nhw ar ei hôl hi yn sylweddol yn eu gwaith.

DIWEDD

**Nodiadau i Olygyddion:**

- Comisiynwyd adroddiad Estyn "Arfarniad o'r ffordd y mae ysgolion ac AALlau yn gweithredu arweiniad ar wahardd" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cyhoeddir yn www.estyn.gov.uk .

- Ymgymerwyd â'r gwaith hwn fel rhan o'r cylch gwaith a gafodd Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006. Mae'r adroddiad yn rhoi cyngor ar ba mor dda y mae ysgolion ac AALlau yn gweithredu'r arweiniad ar waharddiadau (Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 1/2004).

- Ar gyfer yr adroddiad hwn, bu arolygwyr yn dadansoddi data ar waharddiadau o ysgolion yng Nghymru; ymwelwyd â 9 AALl, 13 o ysgolion uwchradd, 1 ysgol gynradd ac 1 uned cyfeirio disgyblion. Roedd yr ysgolion a'r AALlau a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau o ardaloedd gwledig a threfol gyda lefelau amrywiol o amddifadedd cymdeithasol ar draws Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, Y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464